Prentisiaethau 100 1922 - 2022

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Hawlfraint a llên ladrad

**00:00** Helo a chroeso i'r recordiad, heddiw bydden ni'n canolbwyntio ar Lythrennedd Digidol.

**00:08** Pwnc penodol y recordiad hwn bydd Hawlfraint ble bydden ni'n mynd trwy sut i ddefnyddio delweddau a chyfryngau eraill yn gyfreithlon.

**00:19** Erbyn diwedd y sesiwn byddwch yn: Deall beth yw hawlfraint, Gwybod sut i wirio hawlfraint, Gwybod sut gallwch ddod o hyd i gyfrwng gallwch ei ddefnyddio yn rhad ac am ddim.

**00:35** Beth yw hawlfraint? Gwasgwch saib ar y fideo a nodwch eich syniadau yna cliciwch i gychwyn eto.

Mae deddf hawlfraint yn rhoi hawliau i awduron dros y ffordd mae eu gwaith yn cael ei ddefnyddio. Gall dorri rheolau hawlfraint arwain at gosbau troseddol a sifil gan gynnwys dirwy neu gyfnod yn y carchar.

Mae hawlfraint yn amddiffyn gwaith sydd wedi ei recordio mewn rhyw ffordd. Mae'n cynnwys delweddau, clipiau fideo, sain ac animeiddiadau yn ogystal ag eraill. Os ydych am ddefnyddio unrhyw ddarn o waith person arall, mae'n rhaid i chi wirio'r hawlfraint yn gyntaf i sicrhau eich bod yn ei ddefnyddio yn y ffordd gywir a chyfreithiol.

**01:26** Sut fedrwch chi wirio hawlfraint darn o waith? Edrychwch ar y gwaith. Mae'r symbol C mewn cylch yn dynodi hawlfraint ar y gwaith. Gall fod hysbyseb hawlfraint ar y gwaith hefyd ond nid oes angen dangos un yn ôl y gyfraith felly gall gwaith heb hysbyseb dal fod o dan hawlfraint.

Mae'r rhan fwyaf o waith sydd ar gael ar lein wedi eu hamddiffyn gan hawlfraint. Er mwyn osgoi'r siawns o gamddefnyddio delweddau mae gwefannau penodol ar gael i chi ddefnyddio heb angen poeni am hawlfraint fel Pixabay, Unsplash neu Pexels

Mae gan beiriannau chwilio fel Google hidlyddion gallwch ddefnyddio i ddod o hyd i ddelweddau gallwch ddefnyddio am ddim hefyd.

**02:17** Mae trwyddedau 'Creative Commons' ar gael ar gyfer cyfryngau gwahanol. Mae'n bwysig adnabod beth mae'r trwyddedau gwahanol yn golygu er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cyfateb i'r hyn rydych chi eisiau gwneud gyda'r cyfrwng.

Attribution – eich caniatáu i addasu a rhannu'r gwaith, hyd yn oed yn fasnachol, ond eich bod yn rhoi clod i'r awdur gwreiddiol.

ShareAlike – angen sicrhau eich bod yn rhoi'r drwydded unfath â'r gwreiddiol ar y cread newydd.

NoDerivs – eich rhwystro rhag rhannu cread a gafodd ei addasu.

*NonCommercial* – mae'r dynodiad yma eich rhwystro rhag defnyddio'r cread yn fasnachol.

**03:16** Mae dynodiad 'public domain' yn golygu bod yr awdur wedi rhoi'r gorau i'w hawlfraint felly nid oes yna unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio'r cyfrwng. Mae'n bwysig cofio nid yw pob peth sydd ar y we yn 'public domain' er ein bod ni'n gallu ei weld. Dewis y crëwr yw gosod y dynodiad hwn ar ei waith.

**03:38** Mae yna chwe math o drwyddedau gwahanol ar gael o dan ymbarél 'Creative Commons'. Beth mae pob un yn golygu? Gwasgwch saib ar y fideo a chofnodwch eich atebion cyn ail-gychwyn.

1. Gall unrhyw un defnyddio, addasu a rhannu gan roi clod i'r awdur gwreiddiol
2. Gall unrhyw un defnyddio, addasu a rhannu gan roi clod i'r awdur gwreiddiol ond bydd angen i unrhyw waith newydd fod o dan yr un drwydded.
3. Gallwch ddefnyddio, addasu a rhannu gan roi clod i'r awdur oni bai nad ydych yn defnyddio ar gyfer masnach.
4. Gallwch ddefnyddio, addasu a rhannu gan roi clod i'r awdur oni bai nad ydych yn defnyddio ar gyfer masnach a bod unrhyw gread newydd o dan yr un drwydded.
5. Gall unrhyw un defnyddio a rhannu gan roi clod i'r awdur gwreiddiol ond nid oes hawl addasu'r gwaith
6. Gallwch ddefnyddio a rhannu gan roi clod i'r awdur ond nid oes hawl addasu na'i ddefnyddio'n fasnachol.

**04:55** Er mwyn dod o hyd i ddelweddau gallwn ddefnyddio ar Google mae angen yn gyntaf mynd i luniau, neu 'images'. Teipiwch yr hyn rydych eisiau cael delwedd o yn y bar chwilio a gwasgwch chwilio.

Er mwyn hidlo delweddau gyda thrwydded 'creative commons' gallwch glicio ar offer neu 'tools' ac yna dewis 'usage rights'. Mae wedyn gennych chi'r dewis o 'creative commons licenses' neu 'Commercial and other licenses'. Dewiswch 'creative commons licenses' a bydd delweddau gallwch ddefnyddio yn ymddangos. Dewiswch y ddelwedd rydych chi eisiau ac yna cliciwch ar 'license details' i weld pa drwydded sy'n perthyn i'r ddelwedd benodol. Os mae'n addas i chi defnyddio gallwch wedyn lawr lwytho neu gopïo fe i'ch gwaith.

**06:03** Er mwyn dod o hyd i ddelweddau gallwn ddefnyddio ar Bing mae angen mynd i 'images' yn gyntaf. Teipiwch yr hyn rydych eisiau cael delwedd ohono yn y bar chwilio a gwasgwch chwilio.

Yna gwasgwch ar 'filter' a dewiswch 'license'. O fan hyn gallwch ddewis y fath o drwydded rydych chi eisiau wrth chwilio.

**06:41** Mae unrhyw fideo ar YouTube yn dod o dan amodau YouTube. Ar gyfer y mwyafrif mae ond hawl eu gwylio nhw ar lein trwy'r wefan neu ap, neu drwy ddefnyddio'r teclyn mewnosod ar wefan neu gyflwyniad.

Yn gyffredinol nid oes hawl gennych lawr lwytho fideo o YouTube ond mae rhai defnyddwyr yn gosod trwydded Creative Commons a gallwch ddod o hyd i hwn yn y disgrifiad o dan y fideo. Gallwch lawr lwytho ac o bosib eu haddasu yn dibynnu ar y fath o drwydded sydd wedi ei osod.

Mae'n bwysig eich bod chi hefyd yn gwirio os mae cynnwys y fideo yn torri rheolau hawlfraint e.e. os mae'n cynnwys cerddoriaeth sydd â hawlfraint ar wahân. Ni ddylech ddefnyddio unrhyw fideo heb wirio hwn. Cofiwch wirio polisïau ac adran cymorth y wefan cyn defnyddio fideo nad ydych wedi creu eich hunain.

**07:37** Wrth roi clod i grëwr unrhyw gyfrwng dylech gynnwys ei enw, teitl y gwaith, cyfeiriad y wefan le mae'r cyfrwng gwreiddiol a'r fath o drwydded sy'n perthyn i'r gwaith. Er bod hyn yn llawer o wybodaeth mae'n bosib gwneud yn fwy syml trwy ddefnyddio dolenni mewn gwaith digidol. Gyda gwefannau eraill fel Pixabay nid oes angen rhoi clod i'r awdur er bod modd gwneud os hoffech chi dangos eich cefnogaeth.

**08:07** Beth ydy llên-ladrad? Mae sawl math wahanol o lên-ladrad ac mae'n bwysig osgoi pob un yn eich gwaith. Yr un fwyaf amlwg yw copïo rhywbeth gair am air o rywun arall, naill a'i o lyfr neu o wefan. Hyd yn oed os ydych yn aralleirio'r gwaith mae dal yn llên-ladrad os nad ydych yn rhoi cyfeirnod i ddangos yr awdur gwreiddiol. Mae'r un peth yn wir am gyfieithu gwaith yn uniongyrchol. Mae llên-ladrad yn cynnwys y geiriau eu hunain a'r syniadau felly mae'n bwysig rhoi clod i'r awdur pob tro.

**08:44** Sut ydyn ni'n rhoi clod i awdur felly? Mae cyfeirnodau yn eich caniatáu i ddefnyddio gwybodaeth o lyfrau a gwefannau yn eich gwaith. Gallwch ddyfynnu rhannau penodol neu aralleirio darnau a chyfeirio at ble daethoch o hyd i'r wybodaeth.

Mae angen creu rhestr o'r holl lyfrau/gwefannau rydych wedi eu defnyddio (llyfryddiaeth) ar ddiwedd eich gwaith. Ychwanegwch at y rhestr wrth wneud eich gwaith fel ei fod yn y drefn maen nhw'n ymddangos yn y gwaith.

Mae yna gwahanol ffyrdd o ysgrifennu llyfryddiaeth ond un byddwn yn edrych arno yma. Yn gyntaf rydym yn rhoi enw'r awdur neu awduron gyda choma rhwng pob un. Nesaf mae'r flwyddyn cyhoeddi mewn cromfachau.

Yn dilyn y dyddiad mae teitl y darn gydag atalnod llawn ar ei ôl. I orffen mae'r man cyhoeddi gyda cholon ar ei hol ac yna'r cyhoeddwr.

**09:54** I roi cyfeirnod gwefan mae angen dod o hyd i'r awdur a'r flwyddyn iddo gael ei gyhoeddi. Os nad oes enw awdur, ychwanegwch enw'r cwmni ac os nad ydych yn gallu dod o hyd i'r dyddiad cyhoeddi ychwanegwch (d.d.). Gwiriwch os ydy'r wybodaeth dal yn berthnasol os nad oes dyddiad.

**10:19** Mewnosodwch ddolen at deitl y dudalen.

- Copïwch linc at y wefan
- Uwch oleuwch deitl y dudalen yn eich dogfen gwaith

- Cliciwch ar ‘Mewnosod’
- Cliciwch ar ‘Dolen’
- Ychwanegwch y linc a chadarnhau

**11:02** Ewch ati i chwilio am gyfryngau gwahanol hoffech ddefnyddio mewn prosiect. Gwiriwch y drwydded ar y gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn addas i’ch defnydd. Os ydych yn gweithio mewn addysg mae rheolau ychydig yn wahanol felly bydd angen gwirio'r rhain hefyd. Dyma ddolen i wirio hawlfraint addysg.

**11:17** Diolch yn fawr iawn i chi am ymuno a chwblhau’r gwaith gyda ni. Am ragor o wybodaeth a thasgau ar y pwnc ‘Hawlfraint’ ewch i’n gwefan a defnyddio’r adnodd Llythrennedd Digidol.

Defnyddiwch y cod QR isod i fynd yn syth ato. Dolen at yr adnodd yma. Cofiwch wylio'r recordiad nesaf sy’n cyd-fynd gyda phynciau’r adnodd.